Atodiad B

Cwrs Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol
(Rhwydwaith Colegau Agored, Lefel 2 Achrededig)

Mae cwrs mewn Sgiliau Bwyd a Maeth Cymunedol sy'n cael ei ddatblygu a'i gynnal gan Ddeietegwyr Cymunedol yn cael ei dreialu ar hyn o bryd yng ngogledd ddwyrain Cymru.

Mae'r cwrs wedi'i dargedu'n benodol ar gyfer y rheiny sy'n gweithio â grwpiau o bobl yn y gymuned, a allai gynnwys gwirfoddolwyr a staff cyflogedig o glybiau cinio, cynlluniau tai cysgodol, staff Gofal Cartref / gweithwyr cefnogi.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar anghenion maeth oedolion hŷn, ond yn ei hanfod mae'n ymwneud â chynyddu gwybodaeth sylfaenol am faeth, bwyd a materion iechyd.

Fe allai rhagor o gyrsiau gael eu trefnu os bydd digon o ddiddordeb, ond byddai angen grant bach i ariannu lleoedd i fyfyrwyr.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:
Andrea Basu
Deietegydd Datblygiad Cymunedol
Adran Dieteg
Ysbyty Maelor
Wrecsam
LL13 7TD
andrea.basu@new-tr.wales.nhs.uk